**Reviewed: April 2014**

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Rhywogaeth: Brân Goesgoch

## Cyflwyniad

## Cwmpas

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer rhywogaeth yma yn cynnwys:

| Enw'r Rhywogaeth | Enw Cyffredin | RhaB CGB y DU | RhaB rhestr S42 Cymru | RhaB o Bwysigrwydd Lleol |
|---|---|---|---|---|
| *Pyrrhocorax pyrrhocorax* | Brân Goesgoch | | ✓ | ✓ |

Cydnabyddir bod ffactorau fel prif gyflwr y tywydd (sy'n dylanwadu ar gynhyrchiant a goroesi dros y gaeaf) ac erydu arfordirol (all arwain at golli neu ddirywiad ffisegol safleoedd nythu traddodiadol) y tu hwnt i reolaeth neu ddylanwad y Partneriaid. Bydd y Partneriaid yn anelu i liniaru effeithiau negyddol y rhain a ffactorau naturiol eraill ar boblogaeth y Frân Goesgoch trwy gynnal a chyfoethogi'r cynefinoedd porthi y mae Brain Coesgoch yn dibynnu arnynt a thrwy leihau aflonyddu gan bobl e.e. trwy reoli'r rhyngwyneb hamdden / rhywogaeth.

## Datganiad Gweledigaeth

Bydd y Partneriaid yn anelu i gynnal, cyfoethogi a, ble fo'n briodol, ymestyn cynefinoedd bwydo dibynadwy e.e. cynefinoedd arfordirol a rhostir yr iseldir; caeau arfordirol a borir gan wartheg a sofl âr y gaeaf yw'r rhai y caiff y Frân Goesgoch ei chysylltu'n bennaf â hwy o fewn y Sir.

**Reviewed: April 2014**

# Disgrifiad o'r Rhywogaeth

Mae'r Frân Goesgoch yn aelod maint canolig, coesgoch, pig-goch o deulu'r frân. Mae plu'r oedolyn yn gwbl ddu-sgleiniog; mae'r adar ifanc ac adar gaeaf cyntaf yn dueddol o fod â phlu llai sgleiniog sydd yn lledfrown y gellir ei weld pan fo'r golau'n dda. Mae'r frân goesgoch yn fwytäwr arbenigol sy'n bwyta infertebratau'r pridd, er y bydd hefyd yn porthi'n sylweddol ar rawn a gollwyd ac infertebratau ar gaeau sofl âr y gaeaf. Bydd yn casglu infertebratau i'w bwyta trwy durio yn lefelau uchaf y pridd a thwmpathau morgrug gyda'i big cryf sy'n troi i waered. Yn ogystal, bydd y frân goesgoch yn dal ysglyfaeth infertebrata, fel corynnod, ar ddaear galed, mewn agennau a holltau yn y creigiau neu ar wyneb llystyfiant. Maent angen brithwaith o gynefinoedd sydd â mynediad rhwydd ac sy'n cynnal poblogaethau da o infertebratau'r pridd i ddarparu cyfleoedd bwydo effeithlon a dibynadwy.

Yn Sir Benfro, mae'r brain coesgoch wedi eu cyfyngu i'r Parc Cenedlaethol a phur anaml y cânt eu gweld fwy na 1-2 cilomedr i mewn i'r tir. Mae'r Frân Goesgoch yn aderyn clogwyni creigiog agored a phentiroedd yr arfordir agored ac ynysoedd y môr. Bydd ond yn nythu mewn agennau a holltau dyfnion mewn clogwyni morol ac ogofau môr. Mae tiriogaethau a safleoedd nythu wedi eu gwasgaru ar hyd yr arfordir o Poppit yng Ngogledd y Parc Cenedlaethol i lawr at Benalun yn y De. Mae ei hoff gynefinoedd porthi'n cynnwys tyweirch glaswellt byr, agored a phridd noeth sydd â lefelau cynhesrwydd da, fel llethrau arfordirol a chlogwyni heulog sy'n wynebu'r de neu'r gorllewin neu systemau twyni tywod cysgodol.

# Statws

Mae gwyliadwriaeth blynyddol o boblogaethau bridio'r frân goesgoch yn y Parc Cenedlaethol yn awgrymu bod y rhywogaeth yn dirywio ar hyn o bryd.

Ar lefel Ewropeaidd, mae'r Frân Goesgoch wedi ei rhestru yn Atodiad 1 o Gyfarwyddeb Adar yr UE 1979 ac mae'n Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (sy'n golygu bod yr aderyn a'i nythod wedi eu gwarchod yn llawn bob amser). Yn y DU, mae'r Frân Goesgoch yn ymddangos ar Atodlenni 1 a 4 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (diwygiad) ac mae wedi ei dynodi'n rhywogaeth bwysig iawn yng Nghymru o dan S42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, 2006. Yn Sir Benfro, mae'r Frân Goesgoch yn nodwedd o dri safle Natura 2000: Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Clogwyni Castellmartin; AGA Ynys Dewi ac Arfordir Penmaen Dewi ac AGA Sgomer a Sgogwm.

# Bygythiadau

Mae nifer o fygythiadau naturiol i'r Frân Goesgoch, fel cystadleuaeth rhwng gwahanol rywogaethau *corvid* (brain) eraill neu dywydd gwael yn effeithio ar yr ysglyfaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, caiff y bygythiadau naturiol yma eu

gwaethygu'n aml gan ddylanwadau anthropogenig fel patrymau rheoli tir sy'n arwain at golli neu ddirywiad mewn cynefinoedd porthi o ansawdd uchel.

Mae bygythiadau i boblogaeth y frân goesgoch yn Sir Benfro'n cynnwys:

- Colli neu ddirywiad mewn cynefinoedd / ardaloedd porthi allweddol e.e. o ganlyniad i newidiadau mewn arferion amaethyddol sy'n arwain at oruchafiaeth cynefinoedd porthi israddol ble y gall infertebratau'r pridd fod yn brin ac efallai allan o gyrraedd y frân goesgoch. Mae diffyg gwybodaeth / dealltwriaeth gyffredinol ynghylch iechyd ac amrywioldeb poblogaethau infertebratau'r pridd a sut y gallai'r ffactorau hyn fod yn effeithio ar y frân goesgoch. Fodd bynnag, credir bod defnyddio rhaglenni amhriodol i roi moddion llyngyr i stoc pori'n cael effaith niweidiol ar yr adnodd bwyd pwysig yma.

- Cystadleuaeth rhyng-rywogaethol gyda rhywogaethau eraill o deulu'r frân e.e. ydfrain; jac-dos a brain tyddyn am adnoddau cyfyngedig e.e. bwyd (yn enwedig mewn ardaloedd ble mae nythfaoedd brain mawr a ble gallai'r cynefin porthi fod yn israddol eisoes o ran y bwyd sydd ar gael).

- Cyflwr tywydd anffafriol e.e. cyfnodau estynedig o dywydd oer iawn wedi eu nodweddu gan lwydrew treiddgar neu sychder (pan fydd infertebratau'r tir yn brin ac yn anodd eu canfod) sy'n effeithio ar oroesiad (yn enwedig goroesiad adar ifanc, amhrofiadol sydd heb diriogaethau parhaol) a chynhyrchiant.

- Ynysu oddi wrth boblogaethau eraill o'r frân goesgoch yn arwain at ddirywiad genetig ac effeithiau dilynol ar iechyd a gwytnwch hirdymor y boblogaeth. Cofnodwyd arsylwadau o frodyr a chwiorydd yn ffurfio parau bridio yn Sir Benfro a thystiolaeth anecdotaidd o gynnydd mewn namau geni a dirywiad mewn ffrwythlonder.

- Goroesiad gwael wedi magu plu a recriwtio brain coesgoch sydd ddim yn bridio i ymuno â'r boblogaeth fridio.

- Colled neu ddirywiad ffisegol mewn safleoedd nythu diogel (e.e. o ganlyniad i erydu arfordirol) sydd mewn pellter teithio rhesymol i ardaloedd porthi dibynadwy.

- Aflonyddu gan bobl (e.e. safleoedd nythu neu glwydo cymunedol) ac erledigaeth (dwyn o safleoedd nythu; saethu adar sy'n cael eu camgymryd am "frain").

- Ysglyfaethu (mae brain coesgoch ifanc sydd newydd fagu plu yn arbennig o agored i ysglyfaethu) ac afiechyd.

- Unwaith bod poblogaeth yn cwympo o dan faint critigol (anhysbys), bydd y strwythur cymdeithasol cymhleth yn chwalu ac, o ganlyniad i hynny, collir addasiadau ymddygiadol gaiff eu pasio i lawr o un

genhedlaeth i’r nesaf.

# Adnoddau Pellach

Mae cynlluniau / polisïau / deunyddiau cyfeirio eraill sy’n berthnasol i gadwraeth y frân goesgoch yn Sir Benfro, yn cynnwys:

- “A Chough Conservation Strategy for Pembrokeshire”, J.E. Hodges, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) Tachwedd 1994 (cyhoeddwyd gan APCAP ar ran y *Pembrokeshire Chough Study Group*).

- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro: Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin Arfordirol (HAP); Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin Rhostir.

- Cynlluniau Rheoli Craidd ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Tyddewi (sy’n corffori AGA Ynys Dewi ac Arfordir Penmaen Dewi), AGA Clogwyni Calchfaen De Orllewin Cymru (sy’n corffori AGA Clogwyni Castellmartin) ac AGA Sgomer a Sgogwm a gyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

- Adroddiad Prosiect Gwarchod y Godiroedd (*Conserving the Coastal Slopes*) 1999-2002, cyhoeddwyd gan APCAP.

- “Atlas of Breeding Birds in Pembrokeshire 2003-07”, cyhoeddwyd gan y *Pembrokeshire Bird Group*.

- Marius A. Wenzel; Lucy M. Webster; Guillermo Blanco; Malcolm D. Burgess; Christian Kerbiriou; Gernot Segelbacher; Stuart B. Piertney a J. M. Reid. “Pronounced genetic structure and low genetic diversity in European red-billed chough, *Pyrrhocorax pyrrhocorax* populations in *Conservation Genetics”,* cyhoeddwyd ar-lein gan Springer ar 15$^{ed}$ Mehefin 2012.

**Reviewed: April 2014**

# Nodau'r Cynllun

| Rhif | Nod / amcan | Dyddiad Cau | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| CH01 | Dylai'r boblogaeth fod yn sefydlog neu'n cynyddu yn Sir Benfro - gan ganiatáu ar gyfer cyfnewidioldeb naturiol. | Yn parhau | |
| CH02 | Dylid cynnal neu gynyddu eu dosbarthiad yn Sir Benfro. | Yn parhau | |
| CH03 | Dylai fod digon o gynefin a chydlyniad i gynnal poblogaethau iach yn Sir Benfro yn y tymor hir. | Yn parhau | |
| CH04 | Dylai ffactorau anthropogenig (fel aflonyddu o ganlyniad i weithgareddau hamdden) fod dan reolaeth. | Yn parhau | |
| CH05 | Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth am ddeinameg poblogaeth y Frân Goesgoch yn Sir Benfro | Yn parhau | |
| CH06 | Parhau i adolygu ffactorau fel ynysu genetig ar hyfywedd hirdymor poblogaeth y Frân Goesgoch. | Yn parhau | |

# Camau Gweithredu Argymelledig

| Cod | Cam Gweithredu | Adrodd erbyn | Rôl arweiniol | Cynnydd / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| CH03.01 | Darparu cefnogaeth i ffermwyr a thirfeddianwyr i reoli pennau clogwyni a llethrau arfordirol er budd brain coesgoch e.e. trwy gytundebau rheoli wedi eu targedu, cynlluniau arbenigol lleol; cynlluniau amaeth-amgylchedd | | APCAP a CNC | |

**Reviewed: April 2014**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CH03.02 | Rheoli llethrau arfordirol, pennau clogwyni a phentiroedd sy'n berchen i / a reolir gan bartneriaid er budd y frân goesgoch | | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru | |
| CH05.01 | Cynnal gwyliadwriaeth a chreu adroddiad blynyddol ar boblogaeth y Frân Goesgoch yn Sir Benfro, yn cynnwys statws cadwraethol y rhywogaeth yn y tair AGA y mae'n nodwedd ohonynt | | APCAP | |
| CH05.02 | Ymchwilio i arferion rheoli tir a da byw sydd o fudd i boblogaethau infertebratau'r pridd a dom yn ardaloedd porthi'r frân goesgoch | | CNC | |
| CH05.03 | Ymchwiliadau i ryngweithiadau / cystadleuaeth posibl rhwng y frân goesgoch a rhywogaethau brain eraill mewn ardaloedd allweddol e.e. yn yr AGA ble mae'r frân goesgoch yn nodwedd o bwysigrwydd Ewropeaidd | | | |
| CH05.04 | Cefnogi parhad / datblygiad rhaglen gosod modrwyau lliw (yn ychwanegol i wyliadwriaeth flynyddol o boblogaeth y frân goesgoch) | | | |
| CH04.01 | Rheoli hamdden arfordirol er mwyn lleihau achosion o aflonyddu / effeithiau andwyol ar frain coesgoch e.e. trwy'r Siarter Awyr Agored; cyfyngiadau tymhorol cytûn ar ddringo clogwyni | | APCAP | |